



ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd : Geoff Lowe

Plaid: Annibynnol

Ward: Acton

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau :

Nid oes gen i rôl fel cadeirydd nac is-gadeirydd oherwydd nid oeddwn am gael fy ystyried oherwydd un o fy mhrif gyfrifoldebau yw gwneud popeth o fewn fy ngallu i roi sylw i faterion ward ar ran yr etholwyr rwy'n eu cynrychioli. Mae Acton yn ward brysur gyda phreswylwyr o grŵp oedran cymysg ac mae eu hanghenion yn amrywio a'r rhain yw fy mhrif gyfrifoldebau.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan y Cynghorydd):

Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad.

Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.

Mynychu 19 o 19 cyfarfod.

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:

Aelod o Gyngor Cymuned Acton.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Rheoli

Canolfan Adnoddau Acton. Rwy'n mynd am dro ddwywaith yr wythnos

o amgylch y ward.

Rwy'n ymweld â'r ganolfan adnoddau i sgwrsio gyda'r preswylwyr sy'n ei defnyddio. Mae'n ganolfan ar gyfer nifer o weithgareddau cymdeithasol ac mae llawer yn dysgu sgiliau cyfrifiadurol, mae un o ddefnyddwyr y ganolfan yn darparu gwersi cerddoriaeth i bob grŵp oedran, mae'r brwdfrydedd yn braf i weld.

Rwy'n cerdded o amgylch y parc a gweld be mae'r ardal werdd hyfryd hon yn ei roi i'r nifer o bobl sy'n ymweld â'r parc gan fwynhau'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr. Mae'r grin bowlio gerllaw, sy'n cael ei reoli a'i ofalu gan wirfoddolwyr.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

Ar ddechrau 2016/17, gwelwyd dechrau newidiadau yn y ward a oedd yn cynnwys gwaith ailwampio allanol i rai eiddo, mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys toeau newydd, deunydd lapio allanol a ddylai wneud yr eiddo yn gynhesach.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd

Mae fy nysgu a datblygu yn parhau, mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu cyflawni drwy nifer o'r gweithdai a'r sesiynau hyfforddiant.

Mae'r gweithdai hyn yn cynnwys monitro'r gyllideb, rheoli risg, hyfforddiant llywodraethwyr ysgol.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

Rwy'n aelod o Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynrychioli CBSW. Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu materion adnoddau anodd iawn, ond mae'n darparu gwasanaeth gwych gan gynnwys y ddarpariaeth ymatebwyr cyntaf newydd.

Llofnod y Cynghorydd : Geoff Lowe

Dyddiad: 14/09/2017